

Manifesto

CEFNOGI TRYDYDD SECTOR CAERDYDD



Mae wedi bod yn flwyddyn o newidiadau i Gweithredu Gwirfoddol Caerdydd, ac wrth i 2011 ddirwyn i ben mae gennym enw newydd a hunaniaeth newydd: **C3SC – Cyngor Trydydd Sector Caerdydd.**



sefydliadau nid yn unig i oroesi'r dirwasgiad, ond i barhau i ffynnu – i fod yn wahanol, arloesol a lleol – a gyda llais sy'n cael ei glywed.

Gydag etholiadau'r Cyngor yn prysur ddynesu, byddwn yn creu cyfleoedd i'n haelodau gysylltu gydag ymgeiswyr; bydd ein cylchgrawn newydd 'Manifffesto' yn dadansoddi a rhoi adroddiadau ar ariannu a chynrychiolaeth; a bydd ein gwefan newydd yn 'siop un stop' ar gyfer gwyllyddiaeth am hyfforddiant, rhwydweithiau a'r strwythur partneriaeth integredig yng Nghaerdydd.

Dymuniadau gorau i bawb ohonoch yn y flwyddyn i ddod!

Morgan Fackrell

**Cadeirydd,
Cyngor Trydydd Sector Caerdydd**

ON Cofiwch fod C3SC yma i'ch gwasanaethu chi. Felly dewch i gysylltiad os medrwn helpu meun unrwydd ffordd.

Bu'n flwyddyn o fynd a dod o ran staff ac ymddiriedolwyr, a gwelwyd ystod newydd o rwydweithiau i helpu'r sector i gysylltu a mynegi ei barnau a'i phryderon yn well.

Er mwyn ymdopi â'r amseroedd heriol sy'n ein hwynebu, mae C3SC yn darparu sesiynau hyfforddi a rhwydweithio i helpu'n haelodau i oroesi'r dirwasgiad trwy ddarganfyddu ffynonellau incwm eraill ac edrych ar ffyrdd o gydweithio er mwyn lleihau costau. Gall C3SC gynghori ar ysgrifennu ceisiadau sy'n adennill yr holl gostau cysylltiedig â chynllunio ar gyfer cynaliadwydd yn y dyfodol; felly byddai'n ddoeth i unrhyw un sy'n paratoi cynnig ofyn ein barn ni cyn ei hanfon i mewn.

Yn y flwyddyn i ddod byddwn yn helpu grwpiau i ddatblygu ffyrdd newydd o hysbysebu'r hyn maen nhw'n ei wneud i godi diddordeb trwy ddefnyddio cyfryngau 'newydd', a hefyd i ddatblygu ffyrdd mwy amrywiol o godi incwm, er enghraifft, trwy greu consortia i gynnal am gyfleoedd comisiynu.

Mae Cyngor Trydydd Sector Caerdydd yma i helpu grwpiau a

Edrych yn ôl

Roedd 2010/11 yn flwyddyn brysur. Dyma'r uchafbwyntiau

Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom ymateb i fwy na 1,000 o ymholiadau gan grwpiau a phartneriaid, darparu 26 o gyrsiâu hyfforddi i 140 o gyfranogwyr, rhedeg 7 rhwydwaith trydydd sector, ymateb i 10 ymgynghoriad polisi, cefnogi 45 o gynrychiolwyr trydydd sector a rhoi cyngor ar gyllid i grwpiau a gyflwynodd wahanol geisiadau oedd yn werth cyfanswm o bron £1 miliwn.

Ebrill-Mehefin 2010

Dechreuwyd ein blwyddyn ariannol newydd trwy gynnal diwrnod cynllunio Staff ac Ymddiriedolwyr, a'n helpodd i ddechrau cynllunio dyfodol Gweithredu Gwirfoddol Caerdydd a'n cefnogaeth y Drydydd Sector Caerdydd.

Yn Ebrill cafwyd digwyddiad 'Cynllunio ar gyfer Gwir Gwilyddiaid' a gyflwynodd gysyniad Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol. Cafodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ein cefnogaeth ar gyfer Dosbarth Meistr Trydydd Sector lle gosodwyd sylfeini ar gyfer Cynghrair Strategol a Strategaeth Buddsoddi i'r trydydd sector.

Gorffennaf-Medi 2010

Cafodd ein prosiectau Cymunedau'n Gyntaf eu datblygu a'u gwella gydag ymgyrch wrando ym Mhlasnewydd fel rhan o'r 'Flwyddyn Ewropeaidd ar gyfer Goresgyn Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol'. Roed ail Ddiwrnod Hwyl Tredelerch yn llwyddiant aruthrol gyda mwy na 200 o bobl real yn cymryd rhan er mwyn hybu cydlynadwy cymunedol a helpu i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Buom yn gweithio mewn partneriaeth gyda Chyngor Caerdydd i gyflwyno hyfforddiant Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed i'r trydydd sector. Ym Medi symudodd Gweithredu Gwirfoddol Caerdydd i Dŷ Brunel.

Hydref-Rhagfyr 2010

Gwahoddwyd ein haelodau i wlyio cyhoeddiad y gyllideb yn fyw dros ginio

yn ein swyddfeydd newydd i asesu ei effaith. Mynychodd 200 o aelodau'r trydydd sector ein chwe sioe deithiol i gymdogaethau (gweler tudalen 4) oedd yn dynodi bygythiadau a chyfleoedd posibl yn sgil yr hinsawdd ariannol. Canolbwyntiodd y digwyddiad terfynol, a fynychwyd gan 50 o bobl, ar gyfraniad y sector i 'Beth sydd o Bwys'. Yn ychwanegol, cefnogodd ein swyddogion trydydd sector bartneriaid wrth drefnu digwyddiadau ymgynghorol lleol 'Beth sydd o bwys' a helpodd i sefydlu blaenoriaethau strategol ar gyfer Caerdydd (edrychwch ar Canlyniadau 7 Caerdydd' ar dudalen 5).

Yn ystod y cyfnod buom yn gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i ddatblygu methodoleg ar gyfer ei adolygiad o gyllid trydydd sector.

Ionawr-Mawrth 2011

Dechreuwyd 2011 mewn ysbryd o bartneriaeth gyda 'Global Grangetown', ffair gymunedol amlddiwylliannol yn rhannu diwylliannau trwy gyfrwng cerddoriaeth, dawns a bwyd.

Mynychodd mwy na 100 o bobl (rhai'n aelodau a rhai ddim) ein Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol a Chynhadledd Creu Gwledigaeth yn Ionawr, a helpodd i sefydlu gwledigaeth ar gyfer trydydd sector Caerdydd ac edrych yn fwy manwl ar ble y gallai'r sector gyflwyno gwell gwasanaeth ym meysydd blaenoriaeth 'Beth sydd o Bwys'.

Lansiwyd y Cyfeiriadur Plant a Phobl Ifanc, sy'n dangos y ddarpariaeth i ieuencid ym mhob rhan o'r ddinas a chynhaliwyd digwyddiadau ymgynghori ar gyfer cynllun cyflawni Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Caerdydd.

Wrth i ni ddechrau paratoi ar gyfer blwyddyn ariannol newydd a strwythur trefniadaeth newydd, buom yn ystyried sut y gallem wasanaethu grwpiau gwirfoddol a chymunedol Caerdydd yn well, ac ai Gweithredu Gwirfoddol Caerdydd oedd yr enw cywir ar gyfer y sefydliad 'newydd'.

Oes newydd, yr un gwerthoedd...

Y Prif Swyddog Jacqueline Bell yn ystyried gwahanol wynebau'r trydydd sector yng Nghaerdydd - a'r gwahaniaeth y mae sefydliadau yn ei wneud i fywydau pobl.

Diffiniad o'r Trydydd Sector:

“Mae'r trydydd sector yn cynnwys sefydliadau anllywodraethol â gwerthoedd yn eu llywio ac sy'n bennaf yn ail-fuddsoddi eu harian dros ben i hyrwyddo amcanion cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol. Mae'n cynnwys sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, elusennau, mentrau cymdeithasol, sefydliadau cydweithredol a chwmnïau cydffuddiannol.”

Gallwch gytuno neu anghytuno â'r diffiniad uchod; mae rhai eraill i'w cael. Gallwch hoffi'r ymadrodd neu beidio; nid pawb sydd o'i blaid. Mae penderfynu beth yn union i alw'r sector yn anodd - trydydd, gwirfoddol, gwirfoddol a chymunedol, elusennol, dielw... Nid yw'r un o'r termau hyn yn adlewyrchu'n llawn y swyddogaeth y mae'r sefydliadau hyn yn ei chyflawni, y cyfraniad maen nhw'n ei wneud, a'r amrywiaeth sy'n bodoli o fewn y sefydliadau o fewn ein sector.

Buom yn meddwl yn hir ac yn galed ynglŷn â newid yr enw i Cyngor Trydydd Sector Caerdydd; nid yn ysgafn y cafodd hyn ei wneud. Wrth gwrs, conglaen ein sefydliadau yn y trydydd sector yw elusennau, grwpiau cymunedol a sefydliadau gwirfoddol. Fodd bynnag, mae'r oes yn newid ac mae mwy a mwy o sefydliadau trydydd sector yn dod yn fentrau cymdeithasol a hefyd yn datblygu cwmnïau cydweithredol cymunedol a chymdeithasol.

Amcangyfrifodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru eleni fod mwy na 1900 o sefydliadau sector gwirfoddol yn weithgar yng Nghaerdydd. O ystyried ei rychwant, lled a dyfnder, nid yw'n syndod fod trydydd sector Caerdydd yn cael effaith mor eang. Mae'r sector yn chwarae rhan hanfodol mewn ffurfio cymdeithas sifil Caerdydd, o gyflenwi gofal cymdeithasol a mentrau cymdeithasol, darparu gwasanaethau hyfforddiant a chyflogaeth, i weithgareddau llawr gwlad fel

cymdeithasau preswylwyr, grwpiau rhieni a phlant bach, clybiau gwaith cartref a grwpiau cymunedol chwaraeon a'r celfyddydau, i enwi dim ond rhai.

Gwell rhwystro'r clwy na'i wella


Mae ein sector yn adeiladu'r cysylltiadau a rhwydweithiau sy'n cyfrannu'n sylweddol at economi, amgylchedd ac ansawdd bywyd Caerdydd - gan wneud y ddinas yn lle gwell i fyw. Rydym bob amser wedi gweithio tuag at atal problemau cydweithio i fynd i'r afael a'r achosion *cym* iddyn nhw godi. Ac wrth gwrs, mae hyn yn gwneud arbedion sylweddol i'r pwrs cyhoeddus. Mae pobl leol yn gweithredu gyda'i gilydd, yn cefnogi'r naill a'r llall i redeg eu sefydliadau a chyrraedd eu hamcanion.

Yn ein sector ni daw pobl at ei gilydd oherwydd eu bod yn rhannu'r un pryder ac yn awyddus i wneud rhywbeth yn ei gylch. Maen nhw dynodi angen, yn ystyried y canlyniad y maen nhw'n gobeithio'i gyrraedd a chynllunio'r hyn maen nhw am ei wneud. Felly, pa un bynnag ydych chi'n wirfoddolwr, ymddiriedolwr neu'n gweithio yn y rheng flaen - rydych chi'n chwarae rhan hanfodol. Rydych chi'n gwneud gwahaniaeth; rydych chi'n allweddol, rydych chi'n rhoi rhywbeth yn ôl i'ch cymuned.

Gwerthoedd

Canfu Sefydliad Esmée Fairbairn fod gwerthoedd yn siapio'r hyn mae pob corff trydydd sector yn ei wneud a'r ffordd y gwnawn hynny - sut y rheolwn ein gwaith a'n gwasanaethau, sut y gwnawn benderfyniadau, a'r ffordd y gweithiwn. Mae ein gwerthoedd ynglŷn â grymuso pobl, ymdrechu am gydraddoldeb, sicrhau y caiff lleisiau eu clywed a thrawsnewid bywydau.

Mae mwy o angen y trydydd sector nag erioed wrth i ni fynd i'r afael ag effeithiau'r dirwasgiad a'r toriadau. Waeth p'u'n ai ydych chi'n grŵp cymunedol, sefydliad gwirfoddol neu



Jacqueline Bell, Prif Swyddog

fenter gymdeithasol, yr un fydd eich gofalon: cyllid yn y dyfodol, llywodraethu cryf, gweithluoedd sgilgar a gwneud eich gwaith yn dda wrth i chi wasanaethu eraill.

O Lywodraeth Cymru i lawr, mae'r sector cyhoeddus yn cydnabod y cyfraniad yr ydym yn ei wneud i gryfhau ein cymunedau, gwella gwasanaethau cyhoeddus a chynyddu mynediad i'r gwasanaethau hyn. Maen nhw hefyd yn gwerthfawrogi'r rôl sydd gennym i'w chwarae o ran gwella polisi cyhoeddus trwy'n gwybodaeth a'n harbenigedd wrth weithio gyda rhai o'r cymunedau mwyaf bregus. Ond mae gan y sector cyhoeddus yn ei holl ffurfiau - iechyd, cynghorau, addysg a llywodraeth - ddylanwad gwirioneddol ar yr amgylchedd yr ydym yn gweithio ynddi. Rhaid iddyn nhw weithredu i greu amgylchedd ble gall y sector oroesi a ffynnu - ac yn wir maen nhw wedi ymrwymo i wneud hyn trwy Compact Caerdydd.

Rydym yn annog y sector cyhoeddus i sicrhau ymgynghoriad buan ac effeithiol ar faterion sy'n effeithio ar y trydydd sector a'i ddefnyddwyr; i gynyddu ymwybyddiaeth o'n sgiliau, gallu a'n hanes wrth gyflenwi gwasanaethau o safon; ac i agor marchnadoedd y sector cyhoeddus trwy gomisiynu deallus, gyda phrosesau caffael llyfn a mwy cymwys.

Er enghraifft, rydym eisiau i fwy o

Ymunais â Gweithredu Gwirfoddol Caerdydd yn Ionawr 2010. Fy rôl yw gwneud yn siŵr ein bod yn gwrandao ar fuddiannau'n sefydliadau sy'n aelodau a'r trydydd sector ehangach yng Nghaerdydd. Mae'n bwysig i ni fod sefydliadau trydydd sector yn cyfrannu at y ffordd yr ydym yn datblygu'n gwasanaethau - oherwydd wedyn rydym yn fwy tebygol o lwyddo i ddeall a bodloni eu hanghenion, a'u harfogi wrth iddyn nhw wasanaethau cymunedau a phobl Caerdydd.

sefydliadau a chonsortia trydydd sector allu cynnig ochr yn ochr â chwmnïau mwy a chael eu cydnabod yn y gadwyn gyflenwi. Mae'n hanfodol bod grantiau'n cael eu hamddiffyn fel ffynhonnell fuddsoddi hanfodol o fewn y broses gomisiynu. Ynghyd ag ariannu, gall y sector cyhoeddus ein helpu i adeiladu asedau trwy drosglwyddo asedau a darparu mynediad i gyfalaf gweithio yn y cyfnodau cynnar i gefnogi mentrau ifanc.

Yr her i ni yw gwneud yn fawr o'r cyfleoedd hyn - gweithredu'n effeithiol ac effeithlon, dynodi bylchau a chydweithio i lunio marchnadoedd a chyfleoedd presennol a rhai newydd. Mae angen i ni arddangos yr argraff yr ydym yn ei chael a'r gwahaniaeth gwirioneddol y mae'n sector yn ei wneud. Efallai mai oherwydd ei natur amrywiol y mae cymaint o ddiffiniadau'n codi o blith academyddion, gwleidyddion, gweision cyhoeddus a sylwebyddion cymdeithasol. **Pa enw bynnag a roddwn ar yr ystod eang, rhagorol hwn o bobl, sefydliadau a rhwydweithiau – mae'n hanfodol ein bod yn ein hadnabod ein hunain fel sector cydlynol gyda hanes cryf o ddod â phobl at ei gilydd i wneud gwahaniaeth ym mywydau pobl.**

C3SC - Cyngor Trydydd Sector Caerdydd, Llawr Daear, Tŷ Brunel 2 Heol Fitzalan Caerdydd CF24 0EB

Ffôn: 029 2048 5722
E-bost: enquiries@chc.org.uk
Gwefan: www.c3sc.org.uk

Dilynwch ni ar Twitter @C3SC



Dewch i gwrdd â gweddill y tîm C3SC



Howard Dobson

Mae fy nghenddir i mewn llywodraeth leol a rhoi'r gorau i ysmegu, ac rwyf wedi bod yn ymwneud â sefydliadau gwirfoddol gydol fy oes.

Rwyf wedi gweithio i Gweithredu Gwirfoddol Caerdydd ers mis Medi 2006, ac yn fy rôl newydd rwyf yn ymwneud a rhedeg y cynllun Impact Plus Grant a chynghori ynglŷn â grantiau a materion ariannu.

3 peth rwy'n eu hoffi: ffeulu ... ffydd ... criced




Carol Norman

Dechreuais weithio fel cymorthydd personol i'r Prif Swyddog yn Rhagfyr 2010, ar ôl gweithio yn y sector gwirfoddol am fwy na 10 mlynedd.

Rwy'n mwynhau bod yn aelod o sefydliad sy'n galluogi'r amrywiaeth enfawr o sefydliadau trydydd sector yng Nghaerdydd i wneud y gwaith gwych maen nhw'n ei wneud.

3 peth rwy'n eu hoffi: mefus ... siocled ... nofio



Anne McDonough

Rwyf wedi bod yn gweithio yma am fwy na thair blynedd, ac mae'r staff a'r bobl rwyf wedi eu cyfarfod wedi gwneud y profiad yn ddiddorol a dyrchafol.

Yn Ebrill cefais fy mhenodi'n un o'r cymorthwyr gwyllyddiaeth, sy'n golygu cyfeirio grwpiau ac unigolion i'r llefydd priodol i dderbyn y cymorth a'r wybodaeth maen nhw ei angen. Rwyf hefyd yn prosesu bwciadau a cheisiadau aelodaeth.

3 peth rwy'n eu hoffi: teithio ... teulu ... darllen



Helen Carr

Ymunais â'r tîm gweinyddu yn gynharach eleni.

Yn fy ngwaith rhan amser fel Cynorthwydd Trydydd Sector rwy'n mwynhau bod yn gyswllt cyntaf i'r sefydliadau sy'n aelodau pan fyddan nhw'n ein ffonio, a hefyd yn mwynhau rhoi cymorth i'r swyddogion trydydd sector wrth iddyn nhw wneud eu gwaith gwych ledled Caerdydd.

3 peth rwy'n eu hoffi: fy meic modur ... yr haul ... wyrion

Cadw mewn cysylltiad â Thrydydd Sector Caerdydd

Yma yn C3SC rydym wedi bod yn canolbwyntio'n ddiweddar ar ddot i adnabod Caerdydd hyd yn oed yn well, wrth i ni newid o fod yn gweithio'n bennaf yn ardal y de i fod yn wasanaeth i'r ddinas gyfan yn y trydydd sector.

Rydym wedi gwneud hyn trwy fynd o gwmpas... Rydym wedi siarad gyda llawer ohonoch yn ein digwyddiadau *Suddo neu Foddi?* yn yr hydref diwethaf ac yn y flwyddyn newydd. Aethom i'r Gyfnewidfa Lo trwy Goleg Mihangel Sant, Canolfan Thornhill ac ardaloedd eraill, gan weld rhai grwpiau am y tro cyntaf. (Helo, Clwb Rotari Caerdydd!).


Wrth baratoi at y Gyllideb yn Hydref 2010 fe wnaethom gynnal ciniawau gweithio ar gyfer arweinwyr sector cyhoeddus i drafod y cyhoeddiadau fel yr oedden nhw'n cael eu gwneud. Fe wyddom, p'un bynnag ydyn ni'n dibynnu'n llwyr ar arian grant neu beidio, fod yn rhaid i'r sector wlyio'r hinsawdd economaidd a gwleidyddol yn ofalus, yn enwedig wrth i ni weld fod toriadau'n dechrau brathu.

Effeithiau posibl y toriadau

Rhododd ein harolwg manwl o'r trydydd sector yn rhan olaf 2010 gyfle i chi ddweud wrthym pa faterion sydd bwysicaf i chi. Diolch i baw a gwblhaodd yr arolwg. Roedd y pwyntiau allweddol i gyd yn canolbwyntio ar effeithiau posibl y toriadau. Roedd pryder am sut y byddai cyllid gan gyrrif statudol yn newid... A fyddai toriadau'n arwain at lai o gomisiynu?... A fyddai toriadau'n rhwystro partneriaethau?... Sut byddai'n llais yn cael ei glywed gan y sector cyhoeddus (os byddai'n cael ei glywed o gwbl)?

Rydym wedi defnyddio'r wybodaeth hon i lunio'r ffordd newydd yr ydym yn gwasanaethu'r trydydd sector yn y ddinas. Mae ein strwythur staffio newydd yn golygu y gallwn eich cefnogi'n well yn eich ardal ddaearyddol chi. Rydym yn llai canoledig, ac mae mwy o'n digwyddiadau a'n cyfarfodydd rhwydwaith yn digwydd y tu allan i ganol y ddinas.

Mae aelodau wedi mynegi pryderon ynghylch effaith toriadau ar sefydliadau cydraddoldeb. Yn awr mae C3SC yn



Casglu syniadau yn y digwyddiadau 'Suddo neu Nofio?'

gweithio'n nes gyda Rhwydwaith Sector Gwirfoddol Pobl Dduon Caerdydd a Phrosiect Datblygu Iechyd Meddwl Caerdydd a'r Fro er mwyn cydweithredu o ran gwybodaeth ac adnoddau, a chael mandad cryfach - ac osgoi dyblygu.

Y 'trydydd sector'

Rydym wedi dysgu am faint ac ehangder y sector yng Nghaerdydd - sy'n cynnwys elusennau cenedlaethol mawr sy'n weithgar yng Nghymru, mentrau cymdeithasol sy'n cynyddu'n araf o ran nifer, cwmnïau diddordeb cymunedol a'r llwyr cynyddol o grwpiau gwirfoddol lleol sy'n canolbwyntio ar ysbryd cymdogol a chydlynio cymunedol.

Mae'r term 'trydydd sector' yn ymgais i gynnwys yr holl gyfraniadau sy'n cael eu gwneud gan grwpiau gwirfoddol, elusennol, cymunedol a ffydd, heb fod angen i'r grŵp gael cyfansoddiad na chael trosiant pendant.

Rydym yn datblygu gwybodaeth leol gryfach ledled Caerdydd, oherwydd ein bod yn cydnabod na allwn ddisgwyl i'r angen yn Sain Ffagan fod yr un fath ag

ym Mhenylan, felly mae gennym erbyn hyn bresenoldeb lleol a swyddog trydydd sector pwrpasol ar gyfer pob un o chwe chymdogaeth Caerdydd (Edrychwch ar y tudalennau canol rhydd i weld map a manylion am y swyddog trydydd sector yn eich ardal chi.)

Gweithio mewn ffordd integredig

Yn ganolog i'n dull newydd o weithio mae cadw cytbwysedd rhwng aelodaeth greiddiol C3SC ac ymateb i grwpiau newydd sy'n cysylltu â ni. I wneud hyn, rydym angen cyfathrebu dwyffordd mwy effeithiol gyda'n haelodau; mae angen i ni llobio a dadlau dros achos ein sector; a sicrhau fod yna ddialog strategol gyda Chyngor Caerdydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Cyngor Celfyddydau Cymru, ymhlith eraill.

Credwn ei bod yn hanfodol i ni wneud yn siŵr nad yw'r hyn sy'n bwysig yn cael ei gau allan gan yr hyn y mae brys amdano. Mae C3SC wedi gweithio gyda'r sector gwirfoddol yng Nghaerdydd trwy'r Bwrdd Partneriaeth Integredig i ddynodi blaenoriaethau penodol sy'n

angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r '7 Canlyniad' a nodwyd am y tro cyntaf mewn strategaeth unigol ar gyfer Caerdydd, 'Beth sydd o Bwys'. I fesur pa mor dda y mae Caerdydd yn gwneud o dan bob un o'r blaenoriaethau hyn, mae'r Cyngor a Bwrdd Iechyd y Brifysgol, ynghyd â phartneriaid eraill, wedi datblygu dull gweithio Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau. Mae C3SC wedi ymrwngwyo i helpu ei aelodau i ddeall hyn a chefnogi'r canlyniadau.

Mae blaenoriaethau penodol ar gyfer eleni i gael eu cyflawni gan y Cyngor a rhanddalwyr trwy ymdrechion ar y cyd a'y'n cael eu galw'n 'ffrydiau gwaith'. Rydym wedi helpu aelodau i gymryd rhan yn y rhain trwy ddarparu tair ar ddeg o sesiynau am ddim gyda mwy wedi eu cynllunio ar gyfer y dyfodol.

Cydweithio

Mae Compact Caerdydd (contract partneriaeth ffurfiol rhwng y Sector Gwirfoddol yng Nghaerdydd a'r ddau brif gorff statudol: Cyngor Caerdydd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro) wedi diogelu sefydliadau trydydd sector sy'n gweithio gyda'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd Prifysgol, a chreu cydddealltwriaeth o'r egwyddorion a'r prosesau sy'n angenrheidiol i weithio'n well gyda'n gilydd.

Parhad ar y dudalen nesaf

Diffiniad

Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau

Arf yw hwn ar gyfer gwella canlyniadau (deilliannau). Mae wedi ei gynllunio nid yn unig i gofnodi'r hyn ydych chi'n ei wneud a faint ydych chi'n ei wneud - ond i'ch helpu i fesur y gwahaniaeth yr ydych chi'n ei wneud a'r effaith yr ydych yn ei gael.

Rydym wedi ymrwngwyo i'r cynllun gweithredu dwy-flynedd sy'n ymwneud ag ariannu a chomisiynu, gweithio mewn partneriaeth, gwirfoddoli, datblygu cymunedol ac ymgynghori.

Rydym wedi datblygu rhwydweithiau newydd i'w hychwanegu at y rhai presennol, sef Rhwydwaith Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd Caerdydd, Rhwydwaith Iechyd a Gofal Cymdeithasol Caerdydd, a Rhwydwaith Cydlynwyr Gwirfoddol Caerdydd. Mae'r rhwydweithiau sy'n datblygu ym meysydd chwaraeon cymunedol, strategaethau ar gyfer cymunedau cynaliadwy, dysgu a menter, a dialog rhyng ffydd. Ar y gweill mae rhwydweithiau sy'n cynnwys celfyddydau cymunedol a diogelwch cymunedol.

Mae'r rhwydweithiau hyn yn ein galluogi i ddarparu cefnogaeth seiliedig ar bynciau, a hefyd yn caniatáu i'r grwpiau

hynny gyfathrebu, tyfu a datblygu cysylltiadau cefnogol yn eu plith eu hunain, a chael llais i ddylanwadu ar lunwyr bolisiau a phenderfyniadau.

Mae cyfathrebu dwyffordd yn allweddol i'n dyfodol, fel C3SC ac fel sector. Gallwch weld ein gwefan newydd ar www.c3sc.org.uk - mae'n siop-un-stop ar gyfer gwybodaeth, manylion am hyfforddiant, digwyddiadau a grwpiau thema, a chynghorion am ariannu a grantiau. Cymerwch olwg arni - a daliwch i anfon atom i ddweud gyda'ch newyddion a'ch digwyddiadau i fynd ar y wefan a'u rhannu gyda sefydliadau trydydd sector eraill.

Rydym wrth ein bodd eich bod wedi codi'r rhifyn cyntaf hwn o Manifesto - llais chwarterol y trydydd sector yng Nghaerdydd - a gobeithiwn y bydd yn dod yn ddarllen hanfodol ar draws y ddinas.

Rwyf wedi gweithio i'r trydydd sector am fwy na chwe blynedd ac yn danbaid dros gefnogi'r sector er mwyn sicrhau ein bod ni'n dylanwadu ar bolisi, cynllunio a chyflenwi gwasanaeth, gan wybod y gallwn ni wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl. Mae gen i ddi-ddordeb brwd mewn cyd-gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus, cyd-gomisiynu, consortia a chydweithredu. Yn ddiweddar rwyf wedi cwblhau fy MSc mewn Adfywio Cymunedau, gan ymchwilio i lefel y dylanwad y mae'r sector yn ei gael mewn partneriaethau strategol yng Nghaerdydd.



Emily Forbes, Uwch Swyddog

Canlyniadau '7 Caerdydd'

- 1 Mae pobl yng Nghaerdydd yn iach;
- 2 Mae gan bobl yng Nghaerdydd amgylchedd glân, deniadol a chynaliadwy;
- 3 Mae pobl yng Nghaerdydd yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel;
- 4 Mae gan Gaerdydd economi lewyrchus a ffyniannus;
- 5 Mae pobl yng Nghaerdydd yn cyraedd eu potensial llawn;
- 6 Mae Caerdydd yn lle gwych i fyw, gweithio a chwarae;
- 7 Mae Caerdydd yn gymdeithas deg, gyfiawn a chynhwysol.

Dyffynnydd o www.cardiffproudcapital.org.uk

Ydych chi wedi'ch rhwydweithio?

Dewch at eich gilydd gydag eraill yn eich maes diddordeb. Dyma restr o rwydweithiau C3SC - ffoniwch ni ar (029) 2048 5722 neu defnyddiwch un o'r cyfeiriadau e-bost canlynol i ddarganfod mwy.

Rhwydwaith Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd Caerdydd
Dydd Mercher 16 Hydref 2011 - Sbectrwm, Bwlch Road, Tyllogoed.

E-bostiwrch Leoni Philp yn leoni.p@c3sc.org.uk

Rhwydwaith Iechyd a Gofal Cymdeithasol Caerdydd
Dydd Gwener, 9 Rhagfyr 2011, 9.30am-3pm - Gwesty Park Inn, Caerdydd

Cyd-Gynhadledd Iechyd a Gofal Cymdeithasol Caerdydd a'r Fro - Helpu Allan, Aros Allan: Atebion Trydydd Sector i Broblemau GIG.

E-bostiwrch Kevin Rahman-Daultrey yn kevin.r@c3sc.org.uk

Rhwydwaith Cydlynwyr Gwirfoddol Caerdydd
Cyfarfod yn chwarterol - manylion y cyfarfod nesaf i gael eu cyhoeddi.

E-bostiwrch Sara yn cardiffvolunteerorganisers@yahoo.co.uk

Rhwydwaith Chwaraeon Cymunedol
Dydd Llun 28 Tachwedd a Dydd Llun 19 Rhagfyr 2012, 1pm - Stadiwm Bêl-droed Dinas Caerdydd, Lecwydd.

E-bostiwrch Katie Mallam yn katie.m@c3sc.org.uk

Rhwydwaith Dysgu a Menter Trydydd Sector Caerdydd
Cyfarfod yn chwarterol - y dyddiad a lleoliad nesaf i'w cadarnhau.

E-bostiwrch Thoria Mohamed yn thoria.m@c3sc.org.uk

Rhwydwaith Rhyng Ffydd Caerdydd
Y dyddiad a lleoliad nesaf i'w cadarnhau.

E-bostiwrch: Jeremy Rees yn jeremy.r@c3sc.org.uk

Rhwydwaith Celfyddydau Cymunedol Caerdydd, Rhwydwaith Diogelwch Cymunedol Caerdydd, a Rhwydwaith Cymunedau Cynaliadwy Caerdydd Newydd
Cadwch olwg ar ein gwefan yn www.c3sc.org.uk - manylion i ddilyn yn fuan.

Ym mha ardal ydych chi?

Ydych chi eisiau i'ch llais gael ei glywed ar y materion sy'n effeithio ar eich sefydliad yn eich ardal *chi* o Gaerdydd?

Mae Cyngor Caerdydd yn defnyddio chwe Tîm Rheoli Cymdogaeth i weithio'n effeithiol ar draws y ddinas. Os hoffech chi gael cyfle i ddylanwadu ar bolisiau a phenderfyniadau'r Cyngor, fe hoffem eich annog i ymuno â ni yn y Fforwm Trydydd Sector.

Fforwm Trydydd Sector Caerdydd

Mawrth 10 Ionawr 2012 o 10am i 3pm - Y Deml Heddwch, Parc Cathays, Caerdydd.

Bydd cinio ar gael. Ffoniwch ni ar (029) 2048 5722 i gael gwybod mwy a neilltuo'ch lle.



Cwrdd â gweddill tîm C3SC



Janice Hill

Fi yw'r Swyddog Cyllid newydd. Rwy'n gweithio rhan-amser, tri diwrnod yr wythnos. Rwy'n gyfrifydd siartredig gyda phymtheng mlynedd o brofiad yn y maes hwn, a cheffais fy hyfforddi gyda KPMG. Bûm yn gweithio o'r blaen gyda Positif Politics Cyf, Banc Julian Hodge a Theatr Sherman. Rwy'n edrych ymlaen at ymuno a gweddill y tîm.
3 peth rwy'n eu hoffi: fy mhiant ... ceffylau ... bwyd



Rowena Shaw

Dechreuais fel Swyddog Hysbysrwydd yng Nghyngor Trydydd Sector Caerdydd ar ddechrau mis Hydref. Mae fy rôl yn cynnwys gweithio ar 'Manifesto', e-fwletinau a diweddarau'r wefan. Mae'n ddiddorol clywed sut y mae grwpiau trydydd sector yn gwneud gwahaniaeth i fywydau'r bobl yn eu cymunedau.
3 peth rwy'n eu hoffi: siocled ... heulwen ... Facebook



Adam Rees

Fy rôl i yw Swyddog Cymunedau yn Gyntaf, yn gweithio gyda'r swyddogion trydydd sector i sicrhau ein bod ni'n datblygu a gwella'n gwaith yn ein hardaloedd Cymunedau yn Gyntaf sef Grangetown, Plasnewydd a Thredelerch. Rwyf wedi gweithio ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector: fel Rheolwr Materion Cyhoeddus i Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr, a chym hynny'n rheseg prosiect ymgysylltu democrataidd ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
3 peth rwy'n eu hoffi: pobi ... mynd a'r cwn am dro ... teledu 'cawsllyd'



Kirsty Evans

Ymunais â'r sefydliad dair blynedd a hanner yn ôl. Dyna oedd fy nghan mentrus cyntaf i'r sector gwirfoddol ar ôl bod yn gweithio i'r Gwasanaeth Sifil am bum mlynedd, a dydw i ddim wedi edrych yn ôl! Fy rôl newydd yw Swyddog Cymorth Cymunedau yn Gyntaf, yn helpu'r Swyddog Cymunedau yn Gyntaf i gydlynio a pharatoi ar gyfer cyfnod nesaf y prosiect.
3 peth rwy'n eu hoffi: siocled ... fy nheulu ... esgidiau

“Diolch”

Diolch o galon i'n cyllidwyr: fyddai'n gwaith ddim yn bosib hebbyddyn nhw.



communities first cymunedau yn gyntaf



Gwerthfawrogiad

Diolch yn fawr i'n holl ymddiriedolwyr a'n gwasanaethodd mwrddiwyd yn 2010/1:

Ms Morgan Fackrell (Cadeirydd), Dr Ed Cole, Mr Nick Corigan, Mr Peter Davies, Mr Richard Edwards, Mr Michael Flynn, Mrs Soad Hamdi, Mr Anthony Hendrickson, Mr Gerald Puttock, Mr Terry Price, Ms Jacqueline Rafferty, Mrs Reynette Roberts, Mr Jaswant Singh, Mr Mark Stavers, Ms Sujatha Thaladi a Mr Peter Trevett.

Diolch hefyd i'r staff a'n gadawodd yn ystod y flwyddyn a fu...

Ann Bailey-Wood, Marilyn Botsford, Deborah Harding, Claire Button, Deb Evans, Emma Pugh, Heidi Morris, Ravi Vedi, Helena Jones, Vina Patel, Chris Fry, Alice Roythorne, Janine, Elinor Hammond, Jenny Booth a Tess Astbury.

Cyfrifon am y flwyddyn 2010-2011

Mae'r ffigyrau canlynol wedi eu cymryd o ddatganiadau ariannol archwiledig llawn Gweithredu Gwirfoddol Caerdydd Cyf am y flwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2011, a gymeradwywyd gan yr ymddiriedolwyr ar 4 Gorffennaf 2011 ac a gyflwynwyd i'r Comisiwn Elusennau a'r Cofrestrwydd Cwmniâu.

Mae'r archwilyr, Hodge Bakshi, gyda barn ddiadmod, wedi cadarnhau fod y crynodeb hwn yn gyson gyda'r adroddiad llawn. Fe all nad yw'r cyfrifon hyn sydd wedi eu crynhoi yn cynnwys digon o

wybodaeth ar gyfer dealltwriaeth lawn o faterion ariannol yr elusen. I gael mwy o wybodaeth, dylech ymgynghori gyda'r cyfrifon llawn, adroddiad yr archwilyr ar y cyfrifon hynny ac adroddiad blynyddol yr

ymddiriedolwyr. Mae copïau i'w cael gan Ysgrifennydd y Cwmni, Cyngor Trydydd Sector Caerdydd, Llawr Gwaelod, Llawr Gwaelod, Tŷ Brunel, 2 Heol Fitzalan, Caerdydd CF24 OEB.

Datganiad o Weithgareddau Ariannol Gweithredu Gwirfoddol Caerdydd (Cyfyngedig trwy Warant) (gan gynnwys cyfrif incwm a gwariant) Am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2011

	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cronfa Cyfyngedig £	2011 £	2010 £
ADNODDAU'N DOD I MEWN:				
Adnoddau'n dod i mewn o gronfeydd a gynhyrchwyd				
Incwm gwirfoddol	1,640	0	1,640	1,920
Incwm buddsoddiad	2,081	0	2,081	3,343
Incwm yn dod i mewn o weithgareddau elusennol	359,781	433,116	792,897	809,159
Cyfanswm adnoddau'n dod i mewn	363,502	433,116	796,618	814,422
GWARIANT ADNODDAU:				
Gweithgareddau elusennol	372,449	453,670	826,119	790,590
Costau llywodraethiant	28,727	0	28,727	23,713
Cyfanswm gwariant adnoddau	401,176	453,670	854,846	814,303
Adnoddau net (I mewn)/Allan am y flwyddyn ariannol	-37,674	-20,554	-58,228	119
Trosglwyddo cronfeydd	-18,911	18,911	0	0
Cyfanswm cronfeydd a ddygwyd ymlaen 1 Ebrill 2010	239,809	2,567	242,376	242,257
Cyfanswm cronfeydd a gariwyd ymlaen 31 Mawrth 2011	183,224	924	184,148	242,376

Mae'r holl adnoddau net sy'n dod i mewn yn dod o weithgareddau parhaus. Nid oes gan y cwmni unrhyw enillion a cholledion adnabyddedig ar wahân i'r uchod. Nid oes cyfrif incwm a gwariant wedi ei gynhyrchu gan fod y Datganiad Gweithgareddau Ariannol yn cynrychioli holl incwm a gwariant yr Elusen. Roedd y diffyg am y flwyddyn (cyn enillion a cholledion heb eu gwireddu) yn £58,288 (gweddill 2010 £119)

Gweithredu Gwirfoddol Caerdydd (Cyfyngedig trwy Warant) Rhif elusen 1068623 Rhif cwmni: 3336421 Mantolen 31 Mawrth 2011

	2011		2010	
	£	£	£	£
ASEDAU SEFYDLOG:				
Asedau diriaethol		14,375		7,392
ASEDAU CYFREDOL:				
Dyledwyr	22,552		11,222	
Arian parod yn y banc	245,111		275,952	
	267,663		287,174	
	97,890		52,190	
CREDYDWYR: Symiau'n dod yn ddyledus o fewn un flwyddyn				
ASEDAU CYFREDOL NET		169,773		234,984
CYFANSWM ASEDAU LLAI YMRWYMIADAU:		184,148		242,376
CRONFEYDD:				
Cronfeydd anghyfyngedig:				
Cronfeydd anghyfyngedig:	183,224		239,809	
Cronfa gyfyngedig	924		2,567	
ASEDAU NET		184,148		242,376

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â darpariaethau arbennig Rhan VII Ddeddf Cwmniâu 2006 mewn perthynas â chwmiâu bach a chyda'r Safon Adrodd Ariannol ar gyfer Endidau Llai (a ddaeth i rymlonawr 2007).

Cymeradwywyd gan y Bwrdd Ymddiriedolwyr ar 15/09/2011 ac arwyddwyd ar ei ran gan Peter Trevett - Ymddiriedolwr.

Hanes Gweithredu Gwirfoddol Caerdydd yn gryno

Mae gan C3SC wreiddiau sy'n mynd yn ôl fwy nag 20 mlynedd. Yr Uwch Swyddog Jeremy Rees sy'n edrych yn ôl ar rai o'r cerrig milltir yn ein hanes.

Mae hanes sefydliadau elusennol a gwirfoddol yng Nghaerdydd cyn hyned â'r ddinas ei hun, ond dim ond ers 1991 y mae Caerdydd wedi cael sefydliad ambarél annibynnol i ddod â grwpiau at ei gilydd a darparu llais ar gyfer y sector.

O hyn ymlaen bydd y llais hwnnw'n cael ei adnabod fel Cyngor Trydydd Sector Caerdydd (neu C3SC). Ond er bod yr enw a'r arddull yn newydd, byddwn yn adeiladu ar sylfeini balch a osodwyd gan staff, ymddiriedolwyr a grwpiau aelodol dirifedi sydd wedi darparu'r ymdrech a'r ymroddiad a helpodd y wneud y Trydydd Sector yng Nghaerdydd yn sector ffyniannus ac arloesol fel y mae heddiw.

Yn ôl i'r dechreuad

Mae'r stori'n dechrau yn gynnar yn y 1980au, pan ddaeth ychydig o sefydliadau gwirfoddol blaenllaw at ei gilydd gyda'r hen Gyngor Sir De Morgannwg. Bu'r grwpiau hyn yn cydrafod datblygiad gwasanaeth cymorth newydd i helpu'r llu o grwpiau lleol gweithgar yn yr ardal i gysylltu gyda'r naill a'r llall, cael cyngor ar gyllid a chyfathrebu gyda'r Cyngor, oedd erbyn hynny'n gweithio dros Gaerdydd a Bro Morgannwg.

Un o'r prif bartneriaid yn y fenter hon oedd y Gwasanaeth Cymunedol Gwirfoddol, sefydlwyd Canolfan Gwirfoddolwyr y Ddinas. (Sefydlwyd y Gwasanaeth Cymunedol Gwirfoddol yn 1964 ac mae'n ymfalchïo mai dyma'r gwasanaeth gwirfoddolwyr hynaf ym Mhrydain).



Logo De Morgannwg a ddefnyddiwyd gan Intervol hyd 1991

Daeth yr adran newydd i gael ei hadnabod fel 'Intervol' De Morgannwg a chafodd ei lleoli yn Neuadd y Sir.

Daliodd i fod yn adran o'r Cyngor hyd at 1991, pan gofrestrwyd hi fel elusen a'i symud i eiddo uwchben siop yn City Road.

Y disgrifiad o waith Intervol yn y ddogfen gofrestru oedd:

“Amcanion elusennol cyffredinol, ac yn arbennig hyrwyddo ADDYSG, hybu IECHYD, a lliniaru TLODI, TRALLOD AC AFIECHYD”

Roedd yn gyfnod hynod arloesol, a welodd 'Brosiect Datblygu Iechyd Meddwl Caerdydd a'r Fro' a 'Chynghrair Pobl Anabl Caerdydd a'r Fro' yn datblygu, tyfu – ac yn y pen draw yn dod yn sefydliadau annibynnol.

Hunaniaeth newydd

Yn fuan roedd y sefydliad annibynnol ifanc yn wynebu her sylweddol pan basiwyd Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1964, gan arwain ar ddiwedd y De Morgannwg fel Cyngor Sir. Daeth Caerdydd a Bro Morgannwg ill dau yn awdurdodau unedol ar wahân ar 1 Ebrill 1996. Y flwyddyn wedyn, holltodd Intervol i greu Canolfan y Fro ar gyfer Gwasanaethau Gwirfoddol, gan wasanaethu'r Fro Morgannwg newydd - tra'r ymddangosodd enw newydd yng Nghaerdydd.



Logo 1997-2004

Gydag enw a hunaniaeth newydd, symudodd Gweithredu Gwirfoddol Caerdydd i swyddfa ar drydydd llawr Tŷ Shand yn Fitzalan Place, cartref Sefydliad y Deillion Caerdydd.

Daeth Gweithredu Gwirfoddol Caerdydd yn adnabyddus am ei rhaglen hyfforddi, cyngor ar gyllid, a'r rhwydweithiau y mae wedi eu cydlynu i ddod â grwpiau a sefydliadau sy'n rhannu'r un diddordebau at ei gilydd.

Aeth un o'r rhwydweithiau hyn, Rhwydwaith Sector Gwirfoddol Pobl Dduon Caerdydd, ymlaen i ddod yn sefydliad annibynnol - tra bod y rhwydweithiau "Iechyd a Gofal Cymdeithasol" a 'Plant a Phobl Ifanc' wedi sefydlu eu hunain fel llais y sector, gyda chynrychiolaeth gref mewn

trafodaethau gyda'r Cyngor a'r GIG. Sefydlwyd Rhwydwaith Cydlynwyr Gwirfoddol yng nghanol y 90au fel partneriaeth gyda Gwasanaeth Cymunedol Gwirfoddol, a bu Gweithredu Gwirfoddol Caerdydd hefyd yn cyd-drefnu a rhedeg prosiect Gofalwyr ar gyfer Caerdydd yn gynnar yn y 2000au.

Parhaodd Gweithredu Gwirfoddol Caerdydd i dyfu trwy'r 2000au, gyda'r aelodaeth yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn. Rhoddodd nodau ac amcanion y sefydliad flaenoriaeth i rai ardaloedd er mwyn bodloni anghenion penodol, ardal sy'n cael ei hadnabod fel 'Arc y De' - Butetown, Grangetown, Glanrafon a Sblot. Mae Gweithredu Gwirfoddol Caerdydd yn cadw cysylltiad cryf gyda'r ardal hon hyd heddiw, ac yma y mae'r nifer uchaf o aelodau wedi eu lleoli.



Tŷ Shand - roedd ein swyddfa ar y 3ydd llawr

Yn 2007 roedd Gweithredu Gwirfoddol Caerdydd yn gorff cyflogi ar gyfer rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, gan ddechrau trwy ymchwilio a mapio darpar ardaloedd newydd, ac yna o 2008



Jeremy Rees, Uwch Swyddog

Mae Jeremy wedi gweithio yn y sector cymunedol a gwirfoddol yng Nghymru a Lloegr er 1981 ac

yn datblygu Cymunedau'n Gyntaf yn Nhredelerch, Plasnewydd a Grangetown.

Symud Ymlaen

Symudodd Gweithredu Gwirfoddol Caerdydd i'w gartref presennol yn Nhŷ Brunel ym Medi 2010. Yna, ar ddechrau 2011, ail strwythurwyd y sefydliad a chyflwynwyd Fforymau Trydydd Sector i ddod â grwpiau a sefydliadau at ei gilydd ym mhob un o'r chwe ardal yng Nghaerdydd, ac ychwanegwyd rhwydweithiau newydd ar gyfer grwpiau'n ymddiddori mewn Diogelwch Cymunedol; Rhyng Ffydd; Dysgu a Menter; Amgylchedd a Chynaliadwyedd; a Chwaraeon Cymunedol.



Y logo cyfarwydd a ddefnyddiwyd o 2005

O Intervol i Gweithredu Gwirfoddol Caerdydd i C3SC. Mae'r enwau wedi newid, felly hefyd y blaenoriaethau – i gwrdd ag anghenion cyfnewidiol yr oes. Ond yr un yw'r egwyddorion, ac wrth i ni symud ymlaen, rydym yn talu gwrogaeth i'r bobl a'r grwpiau a fu'n paratoi'r ffordd.

ymunodd â Gweithredu Gwirfoddol Caerdydd yn 2008. Mae ei rôl yn cynnwys bod yn 'gyswllt' rhwng C3SC a sefydliadau arbenigol yn gweithio ym maes amrywiaeth yng Nghaerdydd, gan gynnwys cyd-fentrau gwaith.

Mae Jeremy'n cynrychioli C3SC ar Grŵp Llywio Cydlynad Cymunedol Caerdydd, Rhwydwaith Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Caerdydd a'r Fro, a Chlymblaid Cydraddoldeb Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Mae Jeremy hefyd yn cydlynu Rhwydwaith Rhyng Ffydd Caerdydd ac yn swyddog arweiniol ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion Bregus.

Third Sector Officers – here to support you

Cardiff Third Sector Council aims to support local community and voluntary groups. One of the ways we do this is through our third sector officers. They go out and about in Cardiff to meet with groups to deliver training, provide information and signpost to resources.

Leoni Philp

Cardiff West
Portfolio: Children and Young People

Gorllewin Caerdydd
Portfolio: Plant a Phobl Ifanc



Before I worked here: I covered Wales for an organisation working across England and Wales to support single parent families. I have over 10 years' experience of the third sector in Cardiff, predominantly on pushing forward children, young people and family issues.

Given one word to describe the third sector, I'd pick: Innovative.

I think the number 3 is special because: 3 is the magic number!

Get in touch with Leoni:
✉ leoni.p@c3sc.org.uk

Cyn gweithio yma: Roeddwn yn swyddog dros Gymru i sefydliad yn gweithio trwy Loegr a Chymru yn helpu teuluoedd un rhiant. Mae gen i fwy na 10 mlynedd o brofiad o'r trydydd sector yng Nghaerdydd, yn bennaf yn hyrwyddo materion plant, pobl ifanc a theuluoedd.

Pe bawn i'n cael un gair i ddisgrifio'r trydydd sector byddwn i'n dewis: Arloesol.

Rwy'n meddwl bod y rhif 3 yn arbennig oherwydd: 3 yw'r rhif hudol!

Cysylltwch â Leoni:
✉ leoni.p@c3sc.org.uk

Peter Griffiths

Cardiff South West
Portfolio: Sustainable Communities

Before I worked here: I worked in the Communities First programme in Aberystwyth as a youth and community development worker. I have a lot of experience in engaging young people and successfully drawing down funding.

Given one word to describe the third sector, I'd pick: Champion.

I think the number 3 is special because: I'm one of 3 brothers.

Get in touch with Peter:
✉ peter.g@c3sc.org.uk

De Orllewin Caerdydd
Portfolio: Cymunedau Cynaliadwy

Cyn gweithio yma: Roeddwn i'n gweithio i raglen Cymunedau yn Gyntaf yn Aberystwyth fel gweithiwr ieuencid a datblygu cymunedol. Mae gen i lawer o brofiad o ymgysylltu pobl ifanc a denu arian yn llwyddiannus.

Pe bawn i'n cael un gair i ddisgrifio'r trydydd sector, byddwn yn dewis: Pencampwr.

Rwy'n meddwl bod y rhif 3 yn arbennig oherwydd: Rwyf yn un o 3 brawd.

Cysylltwch â Peter:
✉ peter.g@c3sc.org.uk

The map shows the names of our Third Sector Officers (TSOs) and the area of Cardiff they each cover. You'll also find their contact details here if you'd like to discuss your needs with them. Please get in touch – they would love to hear from you!

Katie Mallam

City & Cardiff South
Portfolio: Media, Culture and Sport Networks

Dinas a De Caerdydd
Portfolio: Cyfryngau, Diwylliant a Chwaraeon



Before I worked here: I worked in the public sector. I was with Cardiff Council for three years, in Social Services, and then Community Safety. Prior to that I'd been involved in third sector community safety provision, based in Cardiff Central Police Station.

Given one word to describe the third sector, I'd pick: Essential. I've worked for third sector groups that contribute huge amounts to the quality of life here in Cardiff and across the UK, and there's no doubt that people would suffer without these services.

I think the number 3 is special because: ET had three fingers.

Get in touch with Katie:
✉ katie.m@c3sc.org.uk

Cyn gweithio yma: Roeddwn i'n gweithio yn y sector cyhoeddus. Roeddwn gyda Chyngor Caerdydd am dair blynedd, yn y Gwasanaethau Cymdeithasol, ac yna Diogelwch Cymunedau. Cyn hynny fe fûm yn ymwneud a darpariaeth diogelwch cymunedol y trydydd sector, sydd wedi'i leoli yng ngorsaf heddlu ganolog Caerdydd.

Pe bawn i'n cael un gair i ddisgrifio'r trydydd sector, byddwn yn dewis: Hanfodol. Rwyf wedi gweithio i grwpiau trydydd sector sy'n cyfrannu at ansawdd bywyd yma yng Nghaerdydd ac ar draws Prydain a does dim amheuaeth y byddai pobl yn dioddef heb y gwasanaethau hyn.

Rwy'n meddwl bod y rhif 3 yn arbennig oherwydd: Roedd gan ET dri bys.

Cysylltwch â Katie:
✉ katie.m@c3sc.org.uk

Swyddogion Trydydd Sector – yma i'ch cefnogi

Nod Cyngor Trydydd Sector Caerdydd yw cefnogi grwpiau cymunedol a gwirfoddol lleol. Un o'n ffyrdd o wneud hynny yw trwy'n swyddogion trydydd sector. Mae nhw'n mynd o amgylch Caerdydd yn cwrdd â grwpiau i gyflenwi hyfforddiant, darparu hyfforddiant a chyfeirio tuag at adnoddau.

Mae'r map yn dangos enwau'n Swyddogion Trydydd Sector a'r ardaloedd yng Nghaerdydd lle mae pob un yn gyfrifol. Fe welwch eu manylion cyswllt yma hefyd os hoffech drafod eich anghenion gyda nhw. Cysylltwch os gwelwch yn dda - mi fydden nhw wrth ei bodd yn clywed gennych chi!



- **CARDIFF WEST GORLLEWIN CAERDYDD**
- **CARDIFF SOUTH WEST DE ORLLEWIN CAERDYDD**
- **CITY & CARDIFF SOUTH DINAS A DE CAERDYDD**
- **CARDIFF SOUTH EAST DE DDWYRAIN CAERDYDD**
- **CARDIFF NORTH GOGLEDD CAERDYDD**
- **CARDIFF EAST DWYRAIN CAERDYDD**

Portfolio Portfolio

Third Sector Officers lead on issues related to a particular subject, e.g. Health and Social Care, so you can contact them if you need specific information or advice – wherever you are in Cardiff.

Mae swyddogion Trydydd Sector yn arwain ar faterion cysylltiedig â phwnc arbennig, e.e. iechyd a gofal cymdeithasol, felly gallwch gysylltu â nhw os ydych chi angen gwybodaeth neu gyngor penodol - ble bynnag ydych chi yng Nghaerdydd.

Caroline Hardy

Cardiff East
Portfolio: Community Safety

Dwyrain Caerdydd
Portfolio: Diogelwch Cymunedol

Before I worked here: I worked for a local credit union, which offered financial services to everyone and advice to small third sector organisations. I've volunteered with two third sector organisations (both local and regional) for around ten years.

Given one word to describe the third sector, I'd pick: VITAL. Without the brilliant work carried out every day by the sector, the country would be unable to run effectively or efficiently.

I think the number 3 is special because: of my lucky 'three-leaf clover' (don't burst my bubble!)

Get in touch with Caroline:
✉ caroline.h@c3sc.org.uk



Cyn gweithio yma: Roeddwn i'n gweithio i undeb credyd lleol, oedd yn cynnig gwasanaethau ariannol i bawb a chynghorion i sefydliadau trydydd sector bach. Rwyf wedi gwirfoddoli gyda dau sefydliad trydydd sector (yn lleol a rhanbarthol) am oddeutu ddeng mlynedd.

Pe bawn i'n cael un gair i ddisgrifio'r trydydd sector byddwn yn dewis: HOLLBWYSIG. Heb y gwaith gwyb sy'n cael ei wneud bob dydd gan y sector, fyddai'r wlad ddim yn gallu gweithredu'n effeithiol nac yn effeithlon.

Rwy'n credu bod y rhif 3 yn arbennig oherwydd: Fy 'meillionen tair deilen lwcus'. (peidiwch â byrstio fy swigen!)

Cysylltwch â Caroline:
✉ caroline.h@c3sc.org.uk

Kevin Rahman-Daultrey

Cardiff North
Portfolio: Health and Social Care

Gogledd Caerdydd
Portfolio: Iechyd a Gofal Cymdeithasol.



Before I worked here: I was a Communities First development worker in Swansea and Neath Port Talbot for four years, and before that I volunteered with the Citizens' Advice Bureau for two years.

Given one word to describe the third sector, I'd pick: Awesome.

I think the number 3 is special because: 300,000 km a second is the approximate speed of light and 3 is the first odd prime number.

Get in touch with Kevin:
✉ kevin.r@c3sc.org.uk

Cyn gweithio yma: Roeddwn i'n weithiwr datblygu Cymunedau yn Gyntaf yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot am bedair blynedd, a chyn hynny bûm yn gwirfoddoli gyda Chanolfan Cyngor ar Bopeth am ddwy flynedd.

Pe bawn i'n cael un gair i ddisgrifio'r trydydd sector byddwn yn dewis: Aruthrol.

Rwy'n meddwl fod y rhif 3 yn arbennig oherwydd: 300,000 km yr eiliad, yn fras, yw cyflymder golau a 3 yw'r rhif cysefin cyntaf.

Cysylltwch â Kevin:
✉ kevin.r@c3sc.org.uk

Thoria Mohamed

Cardiff South East
Portfolio: Learning, Employment and Social Enterprise

De Dwyrain Caerdydd
Portfolio: Dysgu, Cyflogaeth a Menter Cymdeithasol

Before I worked here: I worked in the third sector for over a decade and a half with some of society's vulnerable groups, including victims of domestic violence, ethnic minorities, children with disabilities, refugees and asylum seekers.

Given one word to describe the third sector, I'd pick: Inclusive and inspiring (an inspiring contribution to social justice and social inclusion).

I think the number 3 is special because: Body, Mind and Heart – you need the three to succeed.

Get in touch with Thoria:
✉ thoria.m@c3sc.org.uk



Cyn gweithio yma: Roeddwn i'n gweithio yn y trydydd sector am ddegawd a hanner gyda thai o grwpiau bregus cymdeithas, gan gynnwys dioddefwyr trais yn y cartref, lleiafrifoedd ethnig, plant gydag anabledau, ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Pe bawn i'n cael un gair i ddisgrifio'r trydydd sector, byddwn yn dewis: Cynhwysol ac Ysbrydoliaeth (Cyfraniad sy'n ysbrydoliaeth i gyfiawnder cymdeithasol a chynhwysiant cymdeithasol).

Rwy'n meddwl fod y rhif 3 yn arbennig oherwydd: Corff, Meddwl ac Enaid - rydych chi angen y tri i lwyddo.

Cysylltwch â Thoria:
✉ thoria.m@c3sc.org.uk